



Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Ymgynghoriad ar ganllawiau anstatudol
drafft ar gydweithredu rhwng
Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant
a'r Glasoed (CAMHS) a gwasanaethau
cwnsela

Dyddiad cyhoeddi: 16 Hydref 2015

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 11 Rhagfyr 2015

Ymgynghoriad ar ganllawiau anstatudol drafft ar gydweithredu rhwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a gwasanaethau cwnsela

- Trosolwg** Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio sylwadau ynghylch canllawiau anstatudol drafft ar gydweithredu rhwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a gwasanaethau cwnsela awdurdodau lleol. Mae'r canllawiau anstatudol drafft yn nodi sut y caiff y ddau wasanaeth eu trefnu, gan gynnwys eu hól-troed daearyddol, ac maent yn cynnwys nifer o astudiaethau achos ar gydweithredu rhwng y gwasanaethau.
- Sut i ymateb** Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **11 Rhagfyr 2015** fan hwyraf.
- Mae rhanddeiliaid wedi bod yn ymwneud â pharatoi'r canllawiau drafft, sy'n anstatudol ac yn cyfeirio at wella gwasanaethau. Am y rheswm hwn, bernir bod cyfnod ymgynghori o 8 wythnos yn fwy priodol na'r cyfnod ymgynghori safonol o 12 wythnos.
- Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.
- Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau
- Manylion cysylltu** I gael rhagor o wybodaeth:
Cangen Lles Disgyblion
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: WELLBEINGshare@cymru.gsi.gov.uk

Diogelu data Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Rhagair y Gweinidogion

Ar draws Llywodraeth Cymru, ceir pwyslais cynyddol ar sicrhau cymorth effeithiol i blant a phobl ifanc er mwyn helpu i ddiogelu a hyrwyddo eu lles. Mae'r cymorth hwn yn amrywio o ymyriadau cynnar, sydd â'r bwriad o helpu plant a phobl ifanc i fod yn gryfach yn emosiynol a hyrwyddo eu lles emosiynol, i ofal iechyd meddwl arbenigol.

Mae ein strategaeth iechyd meddwl bob oed i Gymru, 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' yn nodi'r bwriad i sicrhau bod iechyd meddwl a lles pobl o bob oed yn gwella'n barhaus o ganlyniad i ymrwymiad ar draws y Llywodraeth i gael pob sector i weithio gyda'i gilydd. Mae gwasanaethau cwnsela awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ar flaen y gad o ran cefnogi iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc. Bydd cydweithio rhwng gwasanaethau yn sicrhau y bydd plant a phobl ifanc sy'n wynebu gofid emosiynol, cymdeithasol a seicolegol, neu broblemau iechyd meddwl, yn cael y driniaeth fwyaf priodol er mwyn cael y canlyniadau gorau posibl iddynt.

Y bwriad yw y bydd y canllawiau'n rhoi eglurder a chysondeb i ddarparwyr gwasanaethau ac yn sicrhau mwy o weithio cydgysylltiedig rhwng gwasanaethau, gan ategu ad-drefnu ehangach CAMHS. Mae hyn yn cydfynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran sicrhau gofal iechyd darbodus. Rydym yn awyddus i sicrhau mai'r gweithwyr proffesiynol mwyaf priodol sy'n delio ag anghenion plant a phobl ifanc, gan leihau atgyfeiriadau amhriodol at CAMHS arbenigol, a lleihau'r difrïo a'r labelu sy'n wynebu pobl ifanc sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol, pan ellir diwallu eu hanghenion rywle arall.

Wrth ddatblygu'r canllawiau drafft hyn, rydym wedi ymgysylltu â CAMHS, gwasanaethau cwnsela awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill. Aethom ati i geisio eu safbwyntiau o'r dechrau ynglŷn â'r hyn y dylid ei gynnwys yn y canllawiau, a gofynnwyd iddynt ddweud wrthym am arfer da sydd eisoes yn bodoli. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r holl randdeiliaid sydd wedi bod yn rhan o'r broses hon, ac am eu cyngor gwerthfawr wrth helpu i lunio'r canllawiau hyn. Mae eu hymrwymiad i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i blant a phobl ifanc yn ysbrydoliaeth.

Croesawn eich barn.

Huw Lewis AC
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Mark Drakeford AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Ymgynghoriad ar ganllawiau anstatudol drafft ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a gwasanaethau cwnsela awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc ar gydweithredu

Beth yw'r prif faterion?

Dengys ystadegau fod gan 1 o bob 10 plentyn rhwng 5 ac 16 oed problem iechyd meddwl a bod gan lawer mwy ohonynt broblemau ymddygiad. Ceir tystiolaeth bod hyn yn cynyddu. Bydd gan tua 50% o bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl parhaus symptomau erbyn iddynt gyrraedd 14 oed, a nifer ohonynt yn iau o lawer na hynny, sy'n dangos y gall salwch meddwl effeithio ar bobl drwy gydol eu bywydau. Mae ymyriad cynnar yn cael ei gydnabod yn gyffredinol fel y ffordd orau o atal problemau iechyd meddwl.

I blant a phobl ifanc sy'n wynebu gofid emosiynol, cymdeithasol a seicolegol neu broblemau iechyd meddwl, gall cydweithredu rhwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), a gwasanaethau cwnsela awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc, sicrhau eu bod yn cael y driniaeth fwyaf priodol. Mae hyn yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran gofal iechyd darbodus, sef darparu gofal i'r rheini sydd â'r angen iechyd mwyaf yn gyntaf, gan ddefnyddio pob sgil ac adnodd yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl.

Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnig darpariaeth resymol o wasanaethau cwnsela annibynnol i bob plentyn ac unigolyn ifanc rhwng 11 a 18 oed yn eu hardal ac i ddisgyblion ym mlwyddyn 6 yn yr ysgol gynradd. Mewn ysgolion, mae cwnsela'n ategu'r gwahanol ddulliau sydd eisoes ar waith i gefnogi anghenion iechyd, emosiynol a chymdeithasol disgyblion.

Mae hyn yn cefnogi darpariaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), y gellir ei diffinio mewn dwy ffordd. Mae un ffordd yn ymwneud yn benodol â CAMHS arbenigol ar Haen 2, 3 a 4, a darparu gofal iechyd meddwl tra arbenigol i blant a phobl ifanc. Ar y llaw arall gellir diffinio CAMHS yn ehangach hefyd fel corff sy'n cwmpasu'r holl wasanaethau sy'n cyfrannu at les emosiynol plant a phobl ifanc, boed yn asiantaethau iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol neu'n asiantaethau eraill.

Ym mis Ebrill 2014 aeth y Byrddau Iechyd ati i ailstrwythuro eu trefniadau cynllunio a chomisiynu CAMHS a sefydlu Rhwydwaith Cynllunio Cymru-gyfan ar gyfer CAMHS ac Anhwylderau Bwyta er mwyn sicrhau y caiff darpariaeth ei chynllunio'n genedlaethol, gyda darpariaeth gymunedol a thrydyddol yn cydweithio er budd y claf. Hefyd, mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i edrych ar ad-drefnu CAMHS yn ehangach, gan ystyried y ffordd orau o ddiwallu anghenion pobl ifanc fregus, a phwy sydd yn y sefyllfa orau i wneud hynny, mewn modd amserol ac effeithiol.

Nid un dull penodol sydd i drefnu CAMHS a gwasanaethau cwnsela mewn gwahanol rannau o Gymru.

Pam rydym yn cyflwyno'r canllawiau hyn?

Datblygwyd y canllawiau drafft hyn er mwyn hwyluso ffordd o weithio ar draws sectorau rhwng gwasanaethau cwnsela awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc a CAMHS.

Cafodd y canllawiau eu datblygu drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid o CAMHS, gwasanaethau cwnsela awdurdodau lleol, darparwyr cwnsela a mudiadau trydydd sector. Ym mis Mawrth, aeth rhanddeiliaid i weithdai lle cawsant roi eu barn ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn y canllawiau a rhannu gwybodaeth am arfer da sydd eisoes yn bodoli o ran cydweithredu.

Mae'r canllawiau'n egluro priod rolau gwasanaethau cwnsela awdurdodau lleol a CAMHS, yn nodi deddfwriaeth berthnasol ac yn pennu prif egwyddorion ar gyfer cydweithredu rhwng y gwasanaethau, gydag enghreifftiau o astudiaethau achos sy'n dangos arfer da.

Prif egwyddorion ar gyfer cydweithredu

Mae'r canllawiau'n nodi arfer da ac awgrymiadau ar gyfer cydweithredu fel a ganlyn:

- Trafod achosion, er mwyn gwella ansawdd yr atgyfeiriadau i CAMHS
- Cefnogaeth gyfunol i'r plentyn/unigolyn ifanc, gan gynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol
- Paneli amlasiantaeth
- Hyfforddiant, er mwyn rhoi cyfle i gynyddu gallu ac adnoddau i feithrin cydberthnasau rhwng cynrychiolwyr gwasanaethau
- Fforymau, er mwyn helpu i feithrin cydberthnasau
- Sicrhau bod enw cyswllt ar gyfer pob gwasanaeth
- Rhoi prosesau ar waith ar gyfer atgyfeirio o Gwnsela i CAMHS
- Rhoi protocolau lleol ar waith fel sail i gydweithio

Y nod yw annog cydweithredu rhwng y gwasanaethau er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a phobl ifanc sy'n wynebu gofid emosiynol, cymdeithasol a seicolegol neu broblemau iechyd meddwl.